Gwaith, Addysg a Hyfforddiant os oes afiechyd meddwl difrifol gennych

Beth yw afiechyd meddwl difrifol?
Mae afiechyd meddwl difrifol yn cynnwys sgitsoffrenia, anhwylder deubegynol a diagnosisau eraill sydd fel arfer yn ymwneud â seicosis (sef colli cysylltiad gyda realiti neu brofi rhithdybiaethau) neu lefelau uchel o ofal, ac sydd o bosib angen triniaeth ysbyty.

Sawl person sy'n meddu ar un?
Bydd 1 o bob 100 person yn profi anhwylder deubegynol, 1 o bob 100 person yn profi sgitsoffrenia, ac ynghyd â diagnosisau eraill, golyga hyn y bydd 1 o bob 30 person yn profi afiechyd meddwl difrifol rhywbryd yn eu bywydau.

A yw hyn yn golygu bod y bobl hynny ag afiechyd meddwl difrifol yn methu â gweithio neu fynd ati i gael mynediad at addysg neu hyfforddiant?
Dim o gwbl: mae nifer o bobl sydd yn byw ag afiechyd meddwl difrifol yn meddu ar yrfaoedd llwyddiannus mewn ystod eang o alwedigaethau o feddyginiaeth i ofal cymdeithasol; o waith ffatri i wasanaethau cwsmer; ac mae nifer o bobl yn cael eu cyflogi mewn mudiadau addysg a hyfforddi.

Mae afiechyd meddwl unigolyn yn medru bod yn wybyddus - neu beidio - i'w cydweithwyr gan ddibynnu ar ddymuniadau'r unigolyn ond mae'n debygol ein bod oll yn adnabod neu yn gweithio gyda phobl ag afiechyd meddwl difrifol.

Os yw aelod o staff yn meddu neu'n datblygu afiechyd meddwl difrifol, mae'n debygol y byddant yn medru dychwelyd i'r gwaith gydag agwedd gefnogol oddi wrth eu rheolwyr; efallai y bydd angen i rai i ddychwelyd dros gyfnod o amser ac mae treulio amser ac egni ar y fath gynlluniau yn llai costus o lawer na recriwtio aelod newydd o staff.

Yn ogystal, bydd afiechyd meddwl difrifol fel arfer yn anabledd cymwys o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 - mae yna fwy na rheidrwydd moesol yn unig felly dros gefnogi staff; mae'r gyfraith fel arfer ar eu hochr a dylid eu trin yn deg.

Fel cyflogwr, sut mae'n bosib i ni fynd i'r afael â'r mater hwn?
Mae Swyddogion Cyflogaeth Rhanbarthol Hafal yn medru rhoi cyngor ychwanegol a hyfforddiant sylfaenol i chi ac mae ein Canolfan Dysgu achrededig yn darparu hyfforddiant i gyflogwyr ar sut i reoli iechyd meddwl yn y gweithle.

Y flaenoriaeth yw sicrhau proses gefnogol a thryloyw i reoli'r fath faterion; mae'n anodd, yn enwedig mewn mudiadau bychain, pan fo staff i ffwrdd o'r gwaith ond bydd deall sut orau i'w cynorthwyo i ddychwelyd i'r gwaith yn lleihau cyfnod yr absenoldeb ac yn gam obeithiol er mwyn osgoi cyfnodau pellach o absenoldeb yn y dyfodol.

Am wybodaeth bellach, cysylltwch os gwelwch yn dda â:

Camau Bach – De Cymru
Hafal
Swît C2,
Tŷ William Knox, Ffordd Britannic
Llandarsi, CASTELL-NEDD
SA10 6EL
Ffôn: 01792 816600
E-bost: hafal@hafal.org

Camau Bach – Gogledd Cymru
Hafal
5 Heol Rhiw
Bae Colwyn
CONWY
LL29 7TF
Ffôn: 01492 534769
E-bost: northwales@hafal.org